# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



Rhifyn wyth – Hydref 2021

## Mae eich barn bob amser yn bwysig i ni!

Efallai y cofiwch chi'r llynedd ein bod wedi gofyn ichi gwblhau'r Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr? Fe gawsom fwy na 381 o ymatebion gan gynnwys 69% ar-lein, sy'n fendigedig! Yn ôl y canlyniadau, eich blaenoriaethau pennaf a'r pethau sydd bwysicaf i chi yw:

- Eich cymuned leol
- Cael cymdogion da
- Mwy o ymwybyddiaeth pan nad yw pobl yn ymddwyn yn gyfrifol.



Er mwyn cadw'n unol â gwaith sector tai Cymru i gymharu boddhad landlordiaid, ac i barhau i ddweud eich dweud wrth ddylanwadu ar ein gwasanaethau i chi, mae arnom angen holi eich barn eto!

I gael cyfle i ennill cerdyn anrheg gwerth £250 cyn y Nadolig, cymerwch ran! Gallwch gwblhau'r Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr ar-lein drwy sganio'r cod QR ar dudalen 7, neu llenwch y ffurflen sydd ynghlwm a'i dychwelyd atom.

I gael gweld canlyniadau'r Arolwg diwethaf ewch i dudalen 6. Rydyn ni'n awyddus iawn i gael gwybod sut hwyl rydyn ni'n ei gael arni, a beth sy'n bwysig i chi.

## Dewch inni helpu i gael gwared â lleithder ac anwedd y gaeaf hwn!

Mae lleithder ac anwedd yn broblem i lawer ohonom, a bydd hynny'n arbennig o wir yn y misoedd nesaf. Rydyn ni'n awyddus iawn i'ch helpu i leihau lleithder yn eich cartref, a fydd yn ei dro'n helpu i atal anwedd a llwydni. Mae problemau'n digwydd pan mae'r aer yn eich cartref yn rhy llaith, yn enwedig pan mae hi'n oer y tu allan.

Dyma ychydig o bethau allai helpu:

- Awyru'ch cartref yn dda a'i gadw'n gynnes
- Sychu pob arwyneb oer a llaith gyda chadach sych
- Defnyddio ffan echdynnu bob amser, os oes un, er mwyn glanhau'r aer
- Ceisio cadw tymheredd cyson a chyfforddus yn eich cartref
- Ceisio sychu dillad y tu allan, a byth eu rhoi ar wresogydd cynnes.

I gael mwy o gyngor, ewch i dudalennau 12-13!

### Gwella cartrefi yn Sir Ddinbych

Rydym wedi bod wrthi'n brysur yng Ngallt Melyd yn cyflawni ein rhaglen ôl-osod er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Ewch i dudalen 9 i gael gwybod mwy.

### Rhoi hwb i'n bywyd gwyllt!

Er mwyn dod â rhywfaint o liw a darparu paill a chynefinoedd i fyd natur a bywyd gwyllt, rydym wedi bod yn meithrin ein dolydd blodau gwyllt yn ein stadau tai ledled Sir Ddinbych.

Ewch i dudalen 15 i gael golwg ar beth fuon ni'n ei wneud.

### Dydych chi ddim ar eich pen eich hun!

Mae mynd i'r afael â cham-drin domestig a chamddefnyddio alcohol wedi'u nodi'n flaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

I gael gwybod sut rydym yn bwriadu cyfrannu at hynny, ewch i dudalen 16.

# Yn y rhifyn hwn

## Tai Sir Ddinbych:


| | |
|---|---|
| Neges oddi wrth Geoff | **Tud 3** |
| Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2021 a'r arolwg eleni | **Tud 6-7** |
| Twyll Tenantiaeth | **Tud 10** |
| Lleithder ac Anwedd | **Tud 12-13** |
| Tai Sir Ddinbych Digidol | **Tud 14** |


## Buddsoddi a Gwella:


| | |
|---|---|
| Rhaglen Ddatblygu Tai | **Tud 8** |
| Gwaith a drefnwyd a gwelliannau | **Tud 9** |
| Y diweddaraf ar Drwsio a Chynnal a Chadw | **Tud 11** |
| Pamffledi Gwresogi | **Tud 11** |
| Gwelliannau Amgylcheddol | **Tud 15** |


## Cymuned a Phobl:


| | |
|---|---|
| Dod i'n hadnabod ni! | **Tud 4** |
| Diwrnod ym mywyd... | **Tud 5** |
| Gwobr y Tenantiaid | **Tud 10** |
| Yma i Helpu | **Tud 14** |
| Cam-drin domestig a chamddefnyddio alcohol | **Tud 16-17** |
| Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddatblygu Cymunedol | **Tud 18-19** |
| Urdd Eisteddfod 2022 | **Tud 20** |


Gellir ailgylchu'r cylchlythyr hwn 100%. Rhowch ef yn eich bin glas pan fyddwch wedi gorffen mwynhau ei ddarllen.



# Bwrdd Newyddion

**I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**
**Dydd Llun – dydd Gwener 9:00am – 5:00pm 01824 706000**

**Argyfwng Tu Allan i Oriau** 0300 123 3068

**Galw Gofal (Llinell Ofal)** 0300 123 6688

**Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth** 0300 456 1000

**Argyfwng Nwy** 0800 111 999

**Argyfwng Trydan** 080031 63 105

**Galw Iechyd Cymru**
111

**Rhybuddion llifogydd**
0345 988 1188

**Teip-siarad**
0345 602 6340



# Neges gan Geoff, Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol

**Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen.**

**Mae digon ynddo i'ch difyrru, gobeithio. Os oes gennych chi unrhyw syniadau neu os hoffech chi weld rhywbeth penodol yn y newyddlen, mae croeso ichi roi gwybod inni.**

Mae llawer o'r erthyglau'n sôn am ein gwaith wrth inni fuddsoddi'n helaeth mewn cartrefi drwy amrywiaeth o raglenni.

Rydym wrthi'n cwblhau rhaglen waith i osod toeau newydd yn ogystal â cheginau ac ystafelloedd ymolchi, ac wedi dechrau gwella ein cartrefi fel eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae hynny'n cynnwys gosod paneli solar i gynhyrchu trydan glân sy'n arbed arian i'n preswylwyr. Gallwch ddarllen am hyn i gyd yn y newyddlen.

Wrth reswm, mae rhai o'n tenantiaid presennol yn holi pryd y caiff eu cartrefi hwythau eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Bwriedir gwneud y gwaith fesul ardal yn seiliedig ar oedran a chyflwr y cartrefi, ac mae'n anochel y bydd hyn yn cymryd nifer o flynyddoedd.

Efallai eich bod wedi sylwi pan fydd rhywun yn symud allan o un o'n cartrefi ein bod yn manteisio ar y cyfle i wneud gwaith mawr gan na fyddwn yn tarfu ar neb sy'n byw yno. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar ein rhaglenni gwaith eraill ar gyfer tenantiaid presennol, fel pobl sy'n aros i gael cegin newydd, er enghraifft.

Wrth i brisiau ynni godi mae'n werth atgoffa pawb ein bod yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych sy'n cyflogi gweithiwr penodol i denantiaid Sir Ddinbych a fedr roi cyngor ynglŷn â materion ariannol yr aelwyd, biliau a thariffau ynni neu unrhyw bryderon cyffredinol ynglŷn ag arian a dyledion.

Gwyddom hefyd y gall pobl fynd i boeni am gostau gwresogi, sy'n ddealladwy, a gall hyn arwain at gartrefi oer. Mae hynny'n medru gwneud cartrefi'n llaith ac yn aml mae honno'n broblem anodd ei datrys. Yn amlach na pheidio nid yw'r ateb mor syml â gwneud gwaith trwsio, ac mae angen cael y cydbwysedd iawn rhwng gwresogi'r cartref a'i awyru.

Mae rhai tenantiaid yn cael siom pan na fedrwn ddatrys problemau gyda lleithder ond mae gofyn am ymdrech ar y cyd rhwng y landlord a'r bobl sy'n byw ar yr aelwyd. Os cewch chi drafferthion gyda lleithder y gaeaf hwn, rydym yma i helpu. Gallwn gynnig cyngor a chymorth ac esbonio beth allwn ei wneud i helpu a hefyd yr hyn sydd angen i chi ei wneud i ddatrys y broblem.

Darllenwch ein canllawiau ar gyfer osgoi lleithder yn y cartref, ac os oes arnoch angen unrhyw gyngor mae croeso ichi gysylltu â ni.



# Dod i'n hadnabod ni – un o'n gweithwyr tai dan sylw

## Clare John yw ein Uwch-swyddog Cyllid a Sicrwydd

### Beth yw eich swydd chi?

Rydw i'n gweithio â rheolwyr Tai Sir Ddinbych i sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym ni'n gyfoes, gan gynnwys rhagolygon incwm a gwariant ar gyfer pethau fel rhenti, taliadau gwasanaeth, trwsio a chynnal a chadw ac ati. Rydw i hefyd yn gweithio ar brosiectau cyfalaf mawr fel rhaglenni i wella tai y tu mewn a'r tu allan, datblygu tai fforddiadwy ac adeiladu tai newydd.

### Ers pryd ydych chi'n gweithio ym maes Tai?

Rydw i wedi bod yn gweithio i wasanaeth Tai Sir Ddinbych neu'n cydweithio â'r gwasanaeth ers mwy na 24 mlynedd.

### Sut mae Tai wedi newid ar hyd y blynyddoedd?

Mae yno fwy o fuddsoddiad mewn tai rŵan nag ar unrhyw adeg arall yn fy ngyrfa. Ers cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru ddechrau'r 2000au er mwyn sicrhau bod tai awdurdodau lleol yn bodloni safonau penodol, mae rhaglenni gwaith helaeth wedi mynd yn eu blaenau ledled y sir i wella ystafelloedd ymolchi, ceginau ac ati.

Yn y pum mlynedd diwethaf mae Tai Sir Ddinbych wedi dechrau cynyddu'r stoc o dai fforddiadwy er mwyn bodloni'r galw, naill ai drwy adeiladu tai neu'u prynu. Dyma'r tro cyntaf inni adeiladu tai newydd ers y 1980au ac felly mae'n gyfnod cyffrous iawn.

Yn fwy diweddar bûm yn rhan o sefydlu'r rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio, sef gosod pethau mewn eiddo i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chyfrannu at leihau carbon.

### Beth ydi'r peth gorau am eich swydd?

Wrth weithio mewn swyddfa (neu gartref yn ddiweddar), anaml iawn y cewch chi weld beth sy'n digwydd ar lawr gwlad a chithau'n ymdrin â'r holl ffigyrau. Y peth gorau am fy swydd i ydi cael mynd allan pan fedraf i weld eiddo gwag wedi'i adnewyddu'n barod i'w ail-osod, gweld tai'r ydym newydd eu prynu ac sy'n barod i'w hadnewyddu, neu weld tai newydd yn cael eu hadeiladu. Dyma'r pethau sy'n arwain at gartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy i bobl fyw ynddynt.

### Hoff gerddoriaeth?

Pethau fel y Kinks, y Beatles a'r Doors, neu hyd yn oed ychydig o Duran Duran (peidiwch â dweud wrth neb!), y Stone Roses, Kula Shaker, Stereophonics, Arctic Monkeys – unrhyw beth!

### Hoff ddinasoedd yn y Deyrnas Unedig?

Does unman fel Lerpwl am gerddoriaeth, neu Gaerdydd a Chaeredin adeg gemau rygbi.



# Diwrnod ym mywyd aelod o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych

**Hoffem gyflwyno Stephen Beach, Is-gadeirydd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych.**



### Fedrwch chi sôn rywfaint am eich swydd?

Cynghorydd tref yn Rhuthun ydw i. Rydw i'n falch iawn o'n tref ni a'r gymuned ydi'r peth pwysicaf yn fy mywyd i.

Ymaelodais â Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych yn 2000 ac rydw i bellach yn Is-gadeirydd.

### Beth ydych chi'n ei fwynhau wrth weithio dros eich cymunedau?

Gweld y gwahaniaeth mae'n ei wneud, a siarad â phobl. Rydyn ni wedi gweld pethau'n gwella yn yr amgylchedd, gyda pharcio oddi ar y stryd, toeau newydd a phrosiectau tai eraill yn yr ardal, ac mae mwy i ddod eto.

Mae'r pandemig wedi cael effaith drom ar bawb ac rwy'n edrych ymlaen at weithio â holl swyddogion Tai Sir Ddinbych a'r Cyngor wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Cadwch lygad am ein sioeau teithiol ni!

### Fedrwch chi ddisgrifio diwrnod arferol ichi?

Rydw i'n brysur bob amser. Rydw i'n gadeirydd ar Banel Iechyd Meddwl Caniad ac yn aelod o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Rydw i'n aelod o nifer o bwyllgorau gyda Chyngor Tref Rhuthun ac yn llywodraethwr yn Ysgol Stryd y Rhos. Rydw i'n cymryd rhan mewn nifer o sefydliadau eraill fel Cymdeithas Ddinesig Rhuthun ac elusen yr RAOB.

### Beth yw eich hoff ffilm?

The Sound of Music

### Beth yw eich hoff fath o gerddoriaeth?

Tamla Motown

# Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein harolwg blaenorol. Cawsom fwy na 381 o ymatebion, 69% ar-lein, oedd yn newyddion gwych!!

Eich prif flaenoriaeth yw eich cymuned leol, mae cael cymdogion da yn bwysig i chi ac rydych yn fwy ymwybodol pan nad yw pobl yn ymddwyn yn gyfrifol. Gweler canlyniadau'r cwestiynau craidd isod:




## 77%

dywedodd 77% o denantiaid eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol eu cartref.




## 79%

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy'n ddiogel.



## 76%

dywedodd 76% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ei fod yn hawdd delio â ni.



## 67%

dywedodd 67% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt.




## 79%

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw.



## 79%

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian.



## 60%

dywedodd 60% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian.



## 71%

dywedodd 71% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth trwsio a chynnal.

## 79%

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir.



## CYFLE I ENNILL!

# CERDYN RHODD £250 NEU £100

**Mae eich barn bob amser yn bwysig i ni!**

Er mwyn cadw'n unol â gwaith sector tai Cymru i gymharu boddhad landlordiaid, ac i barhau i gael eich mewnbwn i lunio ein gwasanaethau i chi, cymerwch ychydig funudau i gymryd rhan yn yr arolwg eleni a chael cyfle i ennill unai cerdyn rhodd o **£250** neu gerdyn rhodd o **£100!**

**Sut rydw i'n cwblhau'r arolwg?**

- Drwy sganio'r cod QR hwn gyda'ch ffôn symudol,
- neu drwy gwblhau'r arolwg amgaeedig a'i ddychwelyd atom.
- Dyddiad cau: **15 Rhagfyr 2021**

**Pryd fyddwn ni'n cael y canlyniadau?**

Byddwn yn adolygu'r canlyniadau dros yr hydref/gaeaf a byddwn yn rhannu'r canlyniadau gyda chi yn newyddlen gwanwyn 2022. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am gymryd amser i gwblhau'r arolygon hyn, maent yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran sut rydym yn darparu gwasanaethau ar eich cyfer.

# Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Datblygu Tai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Dell, Prestatyn:

Rydym wedi sôn yn y newyddlen o'r blaen am ein cynlluniau i adeiladu fflatiau newydd, hygyrch ym Mhrestatyn.

Yn yr haf buom yn gofyn i gontractwyr gynnig prisiau ar gyfer adeiladu bloc o bymtheg o fflatiau newydd i'r Cyngor ar dir gerllaw'r Dell. Rydym bellach wedi rhoi'r contract i gwmni adeiladu yng ngogledd Cymru (R.L. Davies o Fae Colwyn) a bydd y gwaith yn dechrau ar y safle cyn y Nadolig, gan obeithio gorffen erbyn hydref y flwyddyn nesaf.



## Llys Llên, yr hen lyfrgell, Prestatyn:

Gan aros ym Mhrestatyn, rydym wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r hen lyfrgell ar Ffordd Llys Nant. Byddwn yn adeiladu pedwar ar ddeg o fflatiau Cyngor newydd yn ogystal â dwy o unedau busnes ar y llawr gwaelod.

Bydd cyfle hefyd inni wella'r fynedfa a'r trefniadau parcio yn ein fflatiau presennol yn Llys Bodnant y drws nesaf i'r hen lyfrgell. Bwriedir dechrau'r gwaith ar y safle yn y Flwyddyn Newydd a gorffen tua diwedd 2022. Enw'r datblygiad newydd fydd Llys Llên i gofio am y llyfrgell a fu yma am flynyddoedd maith.



## Dinbych, Llwyn Eirin:

Mae gennym newyddion cyffrous ynglŷn â Llwyn Eirin, y datblygiad o ddau ar hugain o dai Cyngor sy'n defnyddio ynni'n effeithlon rydym yn ei adeiladu ar dir uwchlaw Tan y Sgubor yn Ninbych. Mae'r contractwr yn dod ymlaen yn dda wrth godi'r tai newydd! Yn y gwanwyn daethpwyd ag injan dyllu arbenigol i'r safle i wneud tyllau lle fydd dŵr yn tynnu gwres naturiol o'r ddaear i wresogi'r tai. Rydyn ni ar y trywydd iawn i gwblhau'r rhain erbyn gwanwyn 2022 ac rydyn ni ar bigau'r drain i weld y gymuned newydd o denantiaid yn setlo i mewn.



**Fe rannwn y newyddion am ein holl brosiectau â chi yn y rhifyn nesaf, ond mae'n fendigedig gweld tai cymdeithasol newydd sbon yn cael eu hadeiladu yn Sir Ddinbych!**



# Gwaith wedi'i gynllunio

## Amlennu Allanol a Gwaith i Ddefnyddio Ynni'n Fwy Effeithlon

Rydym yn ymrwymo i ostwng biliau tanwydd ein tenantiaid ac inswleiddio ein cartrefi'n well. I helpu gyda hyn aethom ati yn yr haf i gwblhau ein darn cyntaf o waith ôl-osod er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, yng Ngallt Melyd. Mae'r cynllun hwn wedi gwella'r tu allan i 55 o gartrefi ar Ffordd Tŷ Newydd ac ystadau eraill yn y cyffiniau.

Fel rhan o'r contract, a gyda chymorth drwy grant Ôl-osod Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi gosod technoleg ddyfeisgar yn y cartrefi hyn er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae hyn wedi cynnwys paneli solar ffotofoltaig integredig, inswleiddio'r tu allan i waliau a thechnoleg batris. Rydym hefyd wedi rhoi to newydd ar bob tŷ, ail-rendro a gosod cafnau a phibellau glaw newydd.

Mae hwn yn fuddsoddiad pwysig dros ben, ac mae'r rhaglen yn un o blith nifer fechan o gynlluniau peilot sydd ar waith yng Nghymru. Bu modd inni osod synwyryddion yn y cartrefi hyn er mwyn creu System Ynni Ddeallus. Mae'r synwyryddion yn mesur tymheredd a lleithder yn y cartrefi sy'n eu gwneud yn lleoedd brafiach i fyw ynddynt. Maent hefyd yn ein helpu i gadw golwg ar ein cynnydd wrth leihau ôl troed carbon stoc Tai Sir Ddinbych. Mae'r data y mae'r system yn eu casglu hefyd yn rhoi gwybodaeth inni am faint o ynni a gynhyrchir oddi ar y grid ymhob tŷ, sy'n gostwng eich biliau.

Cyflawnwyd y rhaglen mewn partneriaeth â Sustainable Building Services sydd wedi gweithio â Tai Sir Ddinbych ar nifer o brosiectau buddsoddi mawr. Rydym yn bwriadu dechrau cam nesaf y gwaith yn y misoedd nesaf, gan gynnwys gwella 55 o gartrefi yn y Rhyl. Mae arolygon yn cael eu cynnal ar hyn o bryd a gobeithiwn fedru gwneud gwaith tebyg yn y fan honno er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Byddwn yn gosod chwe chant o Systemau Ynni Deallus mewn cartrefi ledled Sir Ddinbych fel rhan o'r gwelliannau'r ydym wedi'u cynllunio ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf drwy'r fframwaith amlennu allanol.



# Deddf Diogelwch Tân 2022 ar ei ffordd yn fuan!


Efallai eich bod wedi clywed sôn am y Ddeddf Diogelwch Tân. Mae a wnelo'r ddeddf â diogelwch tân mewn adeiladau, gan gynnwys blociau tai, a helpu pobl i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i adolygu a diwygio asesiadau risg tân ar gyfer adeiladau perthnasol, gan gynnwys y strwythur, y waliau allanol a drysau fflatiau unigol.

**Sut fydd hyn yn effeithio arnoch chi?**
Os ydych chi'n byw mewn adeilad sydd â dau o fflatiau neu fwy, mae'n rhaid inni reoli a lleihau'r perygl o dân. Bydd y Gorchymyn Diogelwch Tân newydd yn cynnwys:

- strwythur yr adeilad a'r waliau allanol (er enghraifft, gorchuddion, balconïau, drysau ffrynt a ffenestri);
- mannau cyffredin yn yr adeilad; a
- holl ddrysau rhwng fflatiau unigol a mannau cyffredin.

Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi cyfrifoldebau ar denantiaid i gadw adeiladau'n ddiogel hefyd.

**Beth nesaf?**
Er mwyn sicrhau bod ein holl adeiladau perthnasol yn bodloni holl ofynion y Ddeddf, byddwn yn trefnu asesiadau risg tân newydd ac yn cymryd golwg ar ddrysau, ffenestri ac ati'r flwyddyn nesaf. Dymunwn sicrhau bod ein hadeiladau'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'ch bod yn ddiogel ynddynt. Fe rannwn y wybodaeth ddiweddaraf am ein cynllun gweithredu gyda'r rhai hynny y mae hyn yn effeithio arnynt.



# Twyll Tenantiaeth



## Beth i'w wneud os ydych yn amau twyll

Twyll tenantiaeth, er enghraifft yw pan mae gan denant denantiaeth gyda ni ond yn byw yn rhywle arall, yn gosod y cartref i rhywun arall (gan gynnwys aelodau o'r teulu). Mae hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug wrth ymgeisio am dai, neu ymgeisio'n anghyfreithiol i olynu tenantiaeth rhywun sydd wedi marw.

## Camau a gymerir gennym yn erbyn twyll tenantiaeth

Byddwn yn ymchwilio i holl gyhuddiadau o dwyll tenantiaeth, gan ei fod yn ddifrifol iawn. Ble mae yna ddigon o dystiolaeth bod yna dwyll wedi digwydd, byddwn yn cymryd camau. Gall y camau hyn gynnwys erlyniad troseddol ac/neu hawlio meddiant yr eiddo drwy'r llysoedd sifil.

## Beth fedrwch chi ei wneud i helpu?

Os ydych yn meddwl bod rhywun yn euog o dwyll tenantiaeth gadewch i ni wybod drwy siarad gyda'ch Swyddog Tai, **ffoniwch ni ar 01824 706000 neu anfonwch e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk**

Bydd pob adroddiad yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni fyddwch yn cael eich adnabod gan y sawl yr adroddwyd amdanynt. Nid oes angen i chi roi eich manylion cyswllt i ni. Fodd bynnag, os hoffech i ni gysylltu â chi ymhellach ynglŷn â'ch adroddiad, gadewch eich enw a'ch rhif cyswllt.

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych 2020

Yn ein newyddlen ddiwethaf, gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ein cynlluniau i ohirio Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych tan yn hwyrach yn 2021. Ar ôl ystyried y sefyllfa sy'n dal i newid, rydym yn meddwl y byddai'n fwy diogel gohirio'r gwobrau tan yr hydref 2022. Fodd bynnag, tydy hynny ddim yn eich atal rhag gadael i ni wybod am y pethau gwych yr ydych chi, a phobl yn eich cymuned wedi bod yn ei wneud.

Rydym yn gobeithio lansio gwobrau'r flwyddyn nesaf yn y gwanwyn 2022 a'r categorïau fydd:



**Tenant Ifanc y Flwyddyn**

Arwr Cymunedol y Flwyddyn

Preswylydd Tai / Grŵp Cymunedol y Flwyddyn

Gardd y Flwyddyn – Tenant

Gardd y flwyddyn – Cymuned

**Tenant y Flwyddyn**

Cymydog y Flwyddyn

Gwasanaeth i Gwsmeriaid Tai Sir Ddinbych

Prosiect Cymunedol y Flwyddyn

Gardd y flwyddyn – Ardal gymunedol

**Paratowch eich enwebiadau!**

# Egluro Gwaith Trwsio, Cynnal a Chadw a Hanfodol

Teimlwn y byddai'n ddefnyddiol rhannu eich cynllun adfer cyfredol gyda chi ar gyfer gwaith trwsio, cynnal a chadw a hanfodol ac adeiladau newydd yn ystod y pandemig presennol, COVID-19. Oherwydd y sefyllfa bresennol, a'r cyngor a chyfarwyddyd parhaus gan Lywodraeth Cymru, gall ein hymateb adferiad newid ar fyr rybudd. Bydd y ffordd rydym yn gwneud gwaith trwsio yn newid, er mwyn i ni allu dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol ble bynnag bosibl.

Diolch am eich amynedd wrth i ni geisio adfer ein gwasanaeth. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.taisirddinbych.co.uk/y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-y-coronafeirws** neu cysylltwch â ni ar **01824 706000**.



## Cyfnod Clo

**Ni wnaed unrhyw waith trwsio nad oedd yn hanfodol.**

- Gwaith trwsio brys yn unig
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler
- Atgyweiriadau allanol

## Cyfnod Adfer 1

**Rydym yn disgwyl galw uchel ac oedi hir wrth i ni ymateb i'r ôl-groniad o waith.**

- Gwaith trwsio brys – dolen i'r wefan i gael mwy o wybodaeth
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith trwsio cyffredinol byr
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler

## Cyfnod Adfer 2

**Rydym yn disgwyl i'r amseroedd aros leihau.**


- Gwaith trwsio brys
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith hyd at ½ diwrnod
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Rhaglenni gwella a gynlluniwyd
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler
- Gwasanaeth tanwydd eraill gan gynnwys tanwydd solet ac offer olew

RYDYM YMA

## Cyfnod Adfer 3

**Busnes arferol i gychwyn gyda mesurau diogelwch newydd (arferol) mewn lle.**

- Dychwelyd i waith llawn
- Gwaith trwsio brys
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith trwsio cyffredinol nad yw'n hanfodol
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Rhaglenni gwella a gynlluniwyd
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler
- Gwasanaeth tanwydd eraill gan gynnwys tanwydd solet ac offer olew




**Pamffledi Gwresogi**

Newyddion gwych! Rydym wedi bod wrthi'n llunio pamffledi gwresogi i'ch helpu i ddefnyddio'ch system wresogi'n fwy effeithlon.

Ar hyn o bryd mae gennym bamffledi ar gyfer y systemau canlynol:

- Trydan
- Nwy/Olew
- Tanwydd Solet

Os oes gennych un neu fwy o'r systemau gwresogi hyn fe ddylech gael pamffled yn fuan, ynghyd â thaflen wybodaeth am leithder.

Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn llunio pamffledi ar gyfer mathau eraill o systemau gwresogi. Ein nod yw gostwng eich biliau ynni a gwneud y defnydd gorau o'ch system wresogi i'ch cadw'n gynnes yn y gaeaf.

# Cyngor ar ddelio â llaith ac anwedd



### Beth yw Lleithder a Chyddwysiad?

Lleithder, cyddwysiad a thwf llwydni yn eich cartref yw'r arwyddion gweledol bod yr aer yn eich cartref yn rhy wlyb. Pan mae aer cynnes a llaith yn dod i gysylltiad ag arwyneb oer ac yna mae diferion o ddŵr yn ymddangos, cyddwysiad yw hyn. Pan mae stêm ar eich ffenestri, er enghraifft.

### O ble mae'n dod?

Mae'r teulu arferol yn cynhyrchu 20 peint (2,5 galwyn neu oddeutu 12 litr) o leithder bob diwrnod wrth goginio, ymolchi ac anadlu. Mae'r lleithder yma'n cynyddu pan mae dillad yn cael eu sychu yn y cartref neu wrth fynd i'r gawod neu'r bath. Y newyddion da yw y gallwch leihau'r lleithder yn eich cartref.

**Y Cartref Cyfan - Mae cadw eich cartref wedi'i awyru ac yn gynnes yn ffyrdd da o leihau cyddwysiad. Dyma rai awgrymiadau i helpu:**

- Os yw eich cartref yn gynnes, mae cyddwysiad yn llai tebygol o ymddangos.
- Os oes gennych dyllau awyr yn eich ffenestri a'ch ystafelloedd, sicrhewch eu-bod ar agor er mwyn cynorthwyo â llif aer.
- Gadewch ddrysau mewnol ar agor er mwyn i aer allu llifo o amgylch eich cartref.
- Cadwch y llenni ar agor ar ddiwrnodau braf a gadewch i'r aer cynnes o'r haul gylchredeg i ystafelloedd eraill. Caewch eich llenni gyda'r nos er mwyn rhwystro gwres rhag dianc.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy potel nag olew paraffin.
- Ceisiwch sychu eich dillad y tu allan er mwyn atal gormod o leithder yn eich cartref.
- Sicrhewch fod eich gwres canolog ar y tymheredd cywir **(18-21 gradd)** i gadw eich ystafelloedd yn gynnes. Cadwch y gwres ar lefel isel am gyfnodau hirach mewntywydd oer.
- Os nad oes gennych dyllau awyr, agorwch y ffenestri am gyfnod byr bob diwrnod.
- Sychwch bob arwyneb oer a llaith gyda chadach sych er mwyn eu sychu.
- Os yw'n bosib, peidiwch â sychu eich dillad dan do ar hors ddillad neu ar reiddiaduron. Os nad yw hyn yn bosib, rhowch y dillad yn eich ystafell ymolchi gyda'r gwres ymlaen, y ffenestr ar agor/ y ffan echdynnu ymlaen a'r drws ar gau.
- Peidiwch â rhoi dodrefn neu wlâu yn erbyn y waliau.



**Ystafell Fyw - Yn aml, dyma'r ystafell y mae pobl yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ynddi, felly mae cyddwysiad yn gyffredin. Dyma rai awgrymiadau i helpu:**

- Cadwch y tyllau awyr yn eich ffenestri a'ch waliau ar agor.
- Agorwch eich ffenestri am ychydig funudau bob diwrnod i annog llif aer.
- Sicrhewch nad yw eich llenni yn rhy agos at y ffenestr, o leiaf 15cm.

**Ystafelloedd Gwely - Mae cyddwysiad ym mhob ystafell wely ar adegau, ystafelloedd gwag gyda'r gwres wedi'i ddiffodd. Dyma rai awgrymiadau i helpu:**

- Sicrhewch nad yw eich llenni yn rhy agos at y ffenestr, o leiaf 15cm.
- Diffoddwch eich gwres canolog dros nos.
- Cadwch y tyllau awyr yn eich ffenestri ar agor ac agorwch eich ffenestri am ychydig funudau bob diwrnod i annog llif aer.
- Peidiwch â rhoi eich matres ar y llawr.

**Ystafell Ymolchi - Mae cyddwysiad yn yr ystafell hon o hyd oherwydd ei bod yn ystafell sy'n llawn lleithder. Dyma rai awgrymiadau i helpu:**

- Rhowch eich gwres canolog ymlaen er mwyn cynhesu'r ystafell.
- Sychwch bob arwyneb oer a llaith gyda chadach sych er mwyn eu sychu.
- Os ydych yn cael bath, rhedwch ddŵr oer yn gyntaf i leihau'r stêm.
- Cadwch ddrws yr ystafell ymolchi ar gau er mwyn rhwystro'r lleithder rhag dianc.
- Defnyddiwch y ffan echdynnu bob amser, rhowch y ffan i fynd wrth gael cawod neu fath a pheidiwch â diffodd y ffan nes i'r cyddwysiad ddiflannu.

**Cegin ac ystafell gyfleustodau - Pan fyddwch yn coginio neu'n gwneud gwaith golchi, gall hyn wneud eich ystafell yn llaith. Dyma rai awgrymiadau i helpu:**

- Caewch y drysau a chadw y ffenestri ar agor.
- Defnyddiwch y ffan echdynnu bob amser wrth goginio, rhowch y ffan i fynd i glirio'r aer, a gadewch iddi fynd am oddeutu 5 munud ar ôl i chi orffen coginio.
- Rhowch gaeadau ar sosbenni er mwyn rhwystro stêm rhag dianc.
- Sicrhewch fod yr ystafell wedi'i hawyru.
- Os ydych yn defnyddio peiriant sychu dillad, gwnewch yn siŵr bod y fent yn mynd tu allan.
- Cadwch ddrws y gegin ar gau er mwyn rhwystro lleithder rhag dianc wrth goginio.

# Tai Sir Ddinbych – gwasanaethau ar-lein

**Rydych chi wedi cael cyfle i daro golwg ar y wefan yn ddiweddar, gobeithio. Mae'n lle gwych i ddod o hyd i bob math o wybodaeth am eich tenantiaeth, y ffordd rydyn ni'n gofalu am eich cartrefi, y gymuned leol, cefnogaeth ac ati.**

Mae'n bwysig iawn inni fod pawb yn medru defnyddio ein gwefan. Sicrhau bod y cynnwys a'r dyluniad yn eglur ac yn hawdd ei ddefnyddio a'i ddeall. Mae gan o leiaf un o bob pump o bobl yn y Deyrnas Unedig salwch hirdymor, amhariad neu anabledd. Mae yno lawer mwy sydd ag anabledd dros dro.

Ym mis Medi 2018 daeth Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Dyfeisiau Symudol) (Rhif 2) 2018 i rym. Golyga hynny bod yn rhaid inni wneud ein gwefan yn fwy hygyrch drwy ei gwneud yn 'ganfyddadwy, gweithredadwy, dealladwy a sefydlog'. Mae arnom angen cael datganiad hygyrchedd hefyd.

Yn yr hydref cynhaliom archwiliad o'r wefan i weld a oeddem yn dal i ddarparu gwefan hygyrch ichi. Yn y misoedd nesaf efallai y sylwch ar fân newidiadau yn y wefan wrth inni weithredu argymhellion yn deillio o'r archwiliad. Nid da lle gellir gwell!

Yn ogystal â'r wefan rydyn ni'n newid ein ffordd o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Nid yw popeth amdanom ni, ond yn hytrach amdanoch chi, ein tenantiaid.

Dilynwch ein tudalennau Facebook (@TaiSirDdinbych) a Twitter (@TaiSirDdinbych) i gael gwybod beth rydyn ni'n ei wneud a hefyd i rannu beth sy'n bwysig i chi.




## Oeddech chi'n gwybod?

**Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.**

Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:

- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i ddarparwyr eraill am gymorth.

**I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â'r tîm tai ar 01824 706000.**



# Dolydd Blodau Gwyllt

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod wrthi'n creu dolydd blodau gwyllt yn ein stadau tai. Mae'r mannau hyn yn lliwgar ac yn darparu paill a chynefinoedd i bob math o bryfaid. Dyma un neu ddau o luniau a dynnwyd yn yr haf.



Rydyn ni'n defnyddio cymysgedd o hadau lluosflwydd fel bod y blodau'n para'n hirach ac yn cynnwys amrywiaeth o'r blodau a geir yn Sir Ddinbych. Os hoffech chi rannu unrhyw luniau o'n dolydd blodau gwyllt, anfonwch neges ar Facebook (@TaiSirDdinbych). Fe fydden ni wrth ein boddau'n eu gweld.




# Perllan Gymunedol Pengwern

Mae perllan gymunedol Pengwern yn rhan o gynllun ehangach i wella'r stad er mwyn rhoi mannau agored gwerth chweil i'r preswylwyr a hybu bioamrywiaeth. Mae Tai Sir Ddinbych a Chyfeillion Pengwern yn awyddus i ddod â'r stad a'r amgylchedd naturiol at ei gilydd drwy greu cysylltiadau corfforol â'r goedwig a darparu cyfleoedd dysgu i'r gymuned leol.

Plannwyd coed ffrwythau traddodiadol Cymreig yn y berllan a gafwyd yn rhodd gan y cyn-Faer. Bydd yma hefyd ddolydd blodau gwyllt, blodau'r gwanwyn, llwybr a seddi. Plannwyd y coed yn gynnar eleni; cwblheir rhannau eraill y prosiect yn y mis neu ddau nesaf. Gwirfoddolwyr fydd yn gwneud y gwaith plannu fel rhan o'r prosiect Natur ar gyfer Iechyd yr ydym wedi'i weithredu ar y stad ers nifer o flynyddoedd.

Rydym yn gweithredu'r prosiect ar y cyd â'r Gwasanaethau Cefn Gwlad a Chyfeillion Pengwern. Gobeithiwn fedru rhannu rhywfaint o luniau wrth i'r gwaith ddod yn ei flaen.



# Cam-Drin Domestig

## Mae mynd i’r afael â cham-drin domestig yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.




Dyma ddatganiad gan y Cynghorydd Mark Young, sy’n Aelod Arweiniol y Cabinet dros Gynllunio, Diogelu’r Cyhoedd, Cymunedau Diogelach a Cham-drin Domestig.

“Mae rhoi terfyn ar gam-drin domestig mor bwysig i ni fel Cyngor, fel ein bod wedi’i wneud yn un o’n blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol.

“Mae trais yn erbyn dynion a menywod yn effeithio ar bob un ohonom ac mae’n bwysicach nag erioed i fynd i’r afael ag ef ac felly mae’r Cyngor yn datblygu dull ar draws y sir o leihau cam-drin domestig yn erbyn menywod a dynion fel rhan o’r Cynllun Corfforaethol yn ogystal â chefnogi strategaeth Gogledd Cymru i fynd i’r afael â phob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

“Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth; darparu hyfforddiant a datblygiad i staff adnabod arwyddion cam-drin domestig a chymorth i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

“Disgwylir i’r prosiect hwn barhau wrth i ni anelu at gyfrannu at leihau cam-drin domestig ar draws y sir. Felly cadwch olwg am ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym hefyd lawer o gyngor defnyddiol ar ein gwefan ynghyd â dolenni i sefydliadau eraill sydd yno i’ch helpu.

“Yn sir Ddinbych, gwyddom fod y ffigurau wedi codi’n sydyn yn ystod y pandemig presennol.

“A allaf orffen drwy ddweud wrth unrhyw un, efallai na fyddwch hyd yn oed yn ymwybodol eich bod yn dioddef cam-drin domestig – nid yw bob amser yn amlygu ei hun mewn cleisiau. Peidiwch â dioddef yn dawel – mae pobl allan yna a all eich helpu.  Os oes angen help arnoch, ffoniwch y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 8010 800 7 diwrnod yr wythnos, am gyngor a chymorth am ddim neu i siarad am eich opsiynau, neu wrth gwrs, os ydych mewn perygl uniongyrchol, gallwch ganu Heddlu Gogledd Cymru ar 999.”




**NID CHI YW’R UNIG UN.**

**#GwnewchYrAddewid** **#DimEsgusDrosGam-drin**



# Camddefnyddio Alcohol a Thrais yn y Cartref

**Pan edrychwch ar gamddefnyddio alcohol a thrais domestig, mae'n hawdd gweld bod cysylltiadau rhwng y ddau ymddygiad.**

Yn aml, mae'r trais yn y cartref yn cael ei hebrwng gan yfed gormod o alcohol dros gyfnod hir. Er nad yw'r yfed fel arfer yn achosi'r trais, gall wneud y sefyllfa'n fwy cyfnewidiol, gan gynyddu difrifoldeb ac amlder yr episodau cam-drin.

Er y gall yfed wneud y trais yn waeth, gall hefyd fod yn ddihangfa i'r person sy'n cael ei gam-drin, sydd yn ei dro yn dwysáu'r cylch trais domestig ymhellach fyth. Gall y trais hwn effeithio ar unrhyw blant sy'n agored i'r sefyllfa mewn sawl ffordd negyddol.

Mae camddefnyddio alcohol ynghyd â thrais domestig yn aml yn arwain at fwy o anaf i'r partner sy'n cael eu cam-drin, ac yfed bob dydd yw un o'r prif ffactorau risg ar gyfer cam-drin domestig.

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn mynd drwy trais domestig, gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar **0808 8010 800**

Dylai unrhyw un sydd mewn perygl uniongyrchol ffonio **999**.

**#BywHebOfn #Nidchiywrunigun**

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Alcoholics Anonymous am help a dod o hyd i'ch grŵp agosaf hefyd.

**https://www.alcoholics-anonymous.org.uk/Home**

Cam-drin domestig yw un o'r problemau mwyaf rydyn ni'n eu hwynebu. Yn 2019, gwnaeth Tai Sir Ddinbych addewid i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae cyfran fawr o gam-drin domestig yn digwydd heb adroddiad ohono, ond mae astudiaethau'n awgrymu bod miliynau o bobl yn cael eu heffeithio bob blwyddyn. Yn drasig, caiff dwy ferch eu lladd bob wythnos gan eu partner neu gynbartner.

Mae ein haddewid yn canolbwyntio ar bedwar ymrwymiad yr ydym yn cytuno i'w gwneud i ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi ar waith ac ymgorffori polisi i gefnogi ein tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.
- Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth cam-drin domestig cenedlaethol a lleol ar gael ar ein gwefan a lleoedd perthnasol eraill fel ei bod yn hygyrch.
- Diwygio neu greu polisi AD, i gefnogi staff a allai fod yn profi camdriniaeth ddomestig.
- Penodi cefnogwr, ar lefel uwch, i gymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydym yn ei wneud i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

I gael gwybod mwy am ein haddewid, ewch i - http://archifau.sirddinbych.gov.uk/

**Llinellau cymorth defnyddiol:**

Mae'r llinell gymorth Trais Domestig Cenedlaethol yn llinell gymorth gyfrinachol rhad ac am ddim a gynhelir gan Women's Aid a Refuge ar gyfer unrhyw un sy'n profi trais domestig. Mae ar gael 24 awr y diwrnod, saith niwrnod yr wythnos. Gallwch gysylltu â nhw ar **0808 2000 247** neu ymweld â **www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk**

Mae Women's Aid yn darparu ystod o wybodaeth a chefnogaeth ar gam-drin domestig, gan gynnwys cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig a phobl sy'n poeni y gallai eraill fod. Gallwch gysylltu â nhw ar **0808 80 10 800** neu ymweld â **www.welshwomensaid.org.uk/cy**


MAKE A STAND
Our homes, our people, our problem.
This is to certify that
**Denbighshire Housing**
has signed the Chartered Institute of Housing's Make a Stand pledge and has committed to take action to support people experiencing domestic abuse.
Terrie Alafat CBE chief executive Chartered Institute of Housing

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddatblygu Cymunedol

## Cydweithio ar gyfer dyfodol cymuned Pengwern

Yn yr haf cynhaliwyd cyfres o weithgareddau cymunedol er mwyn meithrin cyswllt â phreswylwyr a hybu lles y gymuned. Cynhaliwyd y gweithgareddau mewn partneriaeth â Hwb Cymunedol Pengwern, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, Tai Cymunedol Sir Ddinbych, Chwarae Actif, Cymunedau Bywiog, y Gwasanaeth Ieuenctid, Grŵp Cynefin, CAD a sefydliadau lleol eraill.

Helpodd Hwb Pengwern 80 o oedolion a 205 o blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn Llangollen.

Roedd y gweithgareddau a'r gwasanaethau i breswylwyr yn cynnwys:

- Gweithdai beics
- Sesiynau chwarae actif a chwaraeon
- Twrio am fwyd i'r teulu
- Gwau a sgwrsio
- Gweithdy macrame
- Gweithdy Byd Natur a Bywyd Gwyllt
- Sesiwn sydyn gwisg ysgol
- Adrodd straeon i'r teulu
- Sesiynau galw heibio Cyngor ar Bopeth.

Dosbarthwyd 179 o becynnau byrbryd i blant yn ystod gwyliau'r haf diolch i roddion gan gwmnïau lleol.

Ar sail yr hyn a ddywedodd y preswylwyr bu'r gweithgareddau o gymorth iddynt gael mynediad i'r gymuned a theimlo mwy o gysylltiad. Mae'r Cydlynydd ym Mhengwern wrthi'n cynllunio gweithgareddau eraill ar gyfer y misoedd i ddod, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion wrth gynnal cystadleuaeth i ddylunio logo Hwb Cymunedol Pengwern yn ogystal â digwyddiadau Calan Gaeaf a'r Nadolig.

Rydym wrthi'n paratoi a chynllunio'r digwyddiadau hyn felly cadwch olwg ar y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.









Preswylydd Pengwern -

“Fe aethon ni i dwrio am fwyd a gwneud bara yn y goedwig. Roedd hi’n fendigedig crwydro drwy’r coed a chael gwerthfawrogi beth sydd gennym ar garreg y drws. Roedd hi’n braf iawn hefyd i gwrdd â chymdogion nad oedden ni wedi cwrdd â nhw o’r blaen.  Roedd y staff yn wybodus ac yn amyneddgar dros ben gyda phobl o bob oedran a gallu yn y sesiwn, ac yn goron ar y cyfan fe gawson ni fwyta’r bara a wnaethon ni wrth y tân.

Fe gymeron ni ran mewn digwyddiad chwaraeon amrywiol ym mharc Pengwern, roedd y mab wrth ei fodd â’r amrywiaeth o gampau a’r gwahanol blant na fyddai wedi cwrdd â nhw fel arall, gan ei fod yn mynd i ysgol arall.  Roedd y staff yn fendigedig ac wedi cofio’i enw ers un o’r gweithgareddau cynt. Fe gawson ni becyn byrbryd wrth adael ac roedd hynny’n beth da iawn.”

Bob dydd Llun rhwng 10am a hanner dydd bydd y ganolfan ar agor i bobl ddod i siarad â Cyngor ar Bopeth ar ffurf sesiwn galw heibio ar-lein.

**I gael mwy o wybodaeth neu drefnu apwyntiad cysylltwch ag**

**office@sdcp.org neu ffonio 01490 266004**

**i gael sgwrs ag aelod o’r tîm cyfeillgar.**













# Ein canllaw i Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych 2022!

Newyddion gwych!! Mae Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych yn 2022! Dyma un o wyliau ieuenctid teithiol mwyaf Ewrop, gan ddenu tua 90,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych: "Mae yna lawer o frwdfrydedd yn y sir dros gynnal yr Eisteddfod. Mae cymunedau wedi bod yn gweithio'n galed, yn cynnal gweithgareddau codi arian gan godi miloedd o bunnoedd tuag at y gost o lwyfannu'r digwyddiad."

"Rydym ni'n deall yn iawn pam bod y digwyddiad wedi cael ei ganslo yn 2020, ond fe fydd y cyhoeddiad y bydd yn dychwelyd yn 2022 yn sicr o adfywio brwdfrydedd pobl eto!"

**Pryd a ble mae Eisteddfod yr Urdd yn cael ei gynnal yn Sir Ddinbych?**

- Pryd – hanner tymor mis Mai (30 Mai – 4 Mehefin 2022).
- Ble - ar dir gyferbyn â Fferm Kilford, ar gyrion Dinbych, i gyfeiriad pentref Llandyrnog.

**Beth ydi Eisteddfod yr Urdd?**

Gŵyl gystadleuol yw'r Eisteddfod gyda dros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu yn ystod yr wythnos yn Ninbych, mewn cystadlaethau amrywiol megis canu, dawnsio a pherfformio, a'r cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyfnod cyn wythnos yr ŵyl, mae cystadlaethau rhanbarthol yn cael eu cynnal ledled Cymru, gyda dros 40,000 o blant yn cystadlu i gynrychioli eu sir yn nigwyddiad mis Mai.

**Beth os nad ydw i'n siarad Cymraeg, ydw i dal yn gallu mynd a mwynhau'r ŵyl?**

Mae'r ŵyl ar gyfer y teulu cyfan, pa bynnag iaith rydych chi'n ei siarad. Mae'r ŵyl yn ymfalchïo ei bod yn gynhwysol gan gynnig rhaglen, gwybodaeth, arwyddion a gweithgareddau cwbl ddwyieithog drwy gydol yr wythnos.

Nid yw cyfran fawr o ymwelwyr yn siarad Cymraeg, neu maent yn dymuno dysgu Cymraeg ac fe all yr Eisteddfod helpu gyda hynny. Mae yna nifer fawr o weithgareddau yn ystod yr ŵyl, maent wedi'u hanelu at bobl o bob oedran ac nid yw iaith yn rhwystr. Maent yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn rhad ac am ddim yn y Pafiliwn, er mwyn i bawb fwynhau'r dathliadau.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar eu gwefan.

**Y geiriau pwysig y byddwch yn eu clywed am Eisteddfod yr Urdd:**

**Y Maes:** Dyma'r enw am gae yr ŵyl. Yma fe ddewch chi o hyd i gannoedd o stondinau lliwgar, yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg i deuluoedd, yn cynnwys:

- Beicio
- Dringo
- Sesiynau chwaraeon
- Ffair
- Bandiau byw
- Sioeau plant
- Cyfle i gyfarfod cymeriadau teledu enwog o Gymru



**Pafiliwn:** Dyma lle mae'r holl gystadlaethau yn cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos. Theatr dros dro ydyw sydd â 1,800 sedd yng nghanol y Maes.

**Dathlu 100 mlynedd o'r Urdd**

Yn ogystal â'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych yn 2022, mae Urdd Gobaith Cymru hefyd yn dathlu 100 mlynedd ers i Syr Ifan ab Owen Edwards ei sefydlu nôl yn 1922. Fe fydd 2022 yn flwyddyn gyffrous i'r Urdd ac fe fydd yr Eisteddfod yn Sir Ddinbych yn fwy ac yn well nag erioed.

**Allwn ni ddim aros am Eisteddfod yr Urdd 2022! I gael rhagor o wybodaeth am Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, ewch i https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/2022/**

